

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

4 Hydref 2016 am 2 o'r gloch
Ystafell Gynadledda Democrataidd, Neuadd y Sir

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-gadeirydd)
Cyng. Deryk Cundy	DC	Llafur
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Cllr. Ryan Bartlett	RB	Llafur
Swyddogion		
Llinos Evans	LIE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Matthew Adams	MA	Swyddog Pobl Ifanc Egniol

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Cyng. Edward Thomas	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir	
3.	Cyflwyniad Arweinwyr Iaith, Hamdden Cafwyd cyflwyniad gan Matthew Adams: Cafwyd crynodeb o'i gefndir. Yn dod o gefndir Di-Gymraeg, aeth ati i ddysgu, a bu'n gweithio gyda'r Cyngor ers 2008. Eglurodd ei gymhelliad i fod yn Arweinydd Iaith, ac eglurodd gefndir ei waith yn y maes hamdden. Cafwyd crynodeb o'r cwmnioedd Saesneg y Mae'n nhw wedi dylanwadu arnynt. Eglurodd beth oedd rôl yr Arweinwyr Iaith, a beth oedd y prif Safonau perthnasol i'r adran. Eglurodd bwrpas yr hyfforddiant a gafwyd, a'r datblygiadau cychwynnol sy'n deillio o gyfarfodydd misol yr Arweinwyr iaith hamdden.	

	<p>Llongyfarchwyd yr Adran Hamdden am y datblygiadau a diolchwyd i Mat am y cyflwyniad.</p> <p>Nodwyd bod hwn yn enghraifft dda i adrannau eraill. Nodwyd bod y gwaith yn estyn i ddwy adran arall cyn hir.</p> <p>Nodwyd bod angen gweld yr ewyllys da yn newid i gyfrwng iaith y ddarpariaeth. Er mwyn normaleiddio'r iaith, mae angen i'r ddarpariaeth fod yn Gymraeg.</p> <p>Trafodwyd y ddarpariaeth yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae rhaglen newydd lau i blant 4 -7 oed yn cychwyn cyn hir, i gael ei ddarparu yn y prif Ganolfannau Hamdden yn Sir Gâr. Mae'n gyfle da i ddarparu'n Gymraeg o'r cychwyn.</p> <p>Holwyd am yr is-adrannau eraill o fewn hamdden. Eglurwyd mai'r ochr hamdden a llyfrgelloedd sydd wedi cydio fwyaf yn y prosiect ond ein bod yn ceisio denu amgueddfeydd ac orielau ar hyn o bryd, ond yn bwriadu gadael staff y parciau tan ar ôl yr ailstrwythuro.</p> <p>Diolchwyd i Matthew am ei gyflwyniad.</p>	
<p>4.</p>	<p>Strategaeth Hybu</p> <p>Trafodwyd awgrym Ffred Ffrancis o Gymdeithas yr Iaith ynglŷn a'r berthynas rhwng y Strategaeth Hybu ag Adroddiad y Gymraeg yn Sir Gâr. Awgrymodd CH mai gweithredu'r argymhellion yw ein prif gwaith ac os oes modd dod da nhw ynghyd drwy gynnwys yr argymhellion fel cynllun gweithredu i'r Strategaeth Hybu, byddai hynny'n foddhaol.</p> <p>Trafodwyd holl ddogfennau a fforymau'r Gymraeg yn Sir Gâr. Awgrymodd CC mai rôl y panel yw edrych ar ôl holl elfennau'r Adroddiad ond am addysg, gan fod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gwneud hynny. Nododd MS y dylai'r argymhellion addysg hefyd fod yn y Cynllun Strategol.</p> <p>Cytunodd MS fod yna beryg o gael ein boddi gyda gwaith strategol ac ein bod yn llithro ar y gweithredu.</p> <p>PHG yn cytuno ein bod wedi cael enghraifft da o weithredu da heddiw, ond mae angen adolygu'r sefyllfa ar lawr gwlad o safbwynt gweithredu.</p> <p>Trafodwyd rôl y Fforwm iaith sirol ynglŷn â'r Strategaeth hybu. Mae nifer o'r cyrff yn mynd i fod yn gyfrifol am weithredu nifer o'r argymhellion. Ond, hefyd, mae rôl ganddynt i graffu ar y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae angen i wasanaeth Gymraeg fod yn norm.</p> <p>Nodwyd nad ydy polisiau'r Cyngor pob amser yn cael eu gweithredu, fel y gwelwn wrth arwyddion enwau llefydd.</p>	<p>Uned Bolisi</p>

	<p>Cytunwyd i uno Argymhellion y Gymraeg yn sir Gâr gyda'r Strategaeth Hybu, a chadw Cynllun Gweithredu'r Safonau fel dogfen fewnol ar wahân. Cytunwyd gwneud darn o waith i greu'r Cynllun Gweithredu.</p> <p>Trafodwyd y ffaith bod angen i ni gael mwy o wybodaeth o'r Adran Addysg i graffu ar y datblygiadau.</p> <p>Mae'r panel yn gyfrifol am Adroddiad y Gymraeg a'r Strategaeth hybu.</p> <p>Mae angen sicrhau fod y cynllun (Safonau) gweithredol yn bwydo yn ôl i mewn i'r Strategaeth Hybu.</p>	
<p>5.</p>	<p>Ymgynghoriad y Llywodraeth a'r ddogfen ymgynghorol 'Strategaeth y Gymraeg'</p> <p>Fe fydd yr ymateb yn cael ei gyflwyno yn enw'r Cynghorydd Mair Stephens.</p> <p>Trafodwyd y ddogfen fesul cwestiwn ac fe lenwyd y ddogfen ymgynghorol yn y fan a'r lle.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trafodwyd y berthynas rhwng amddiffyn cymunedau Cymraeg a datblygu a thyfu'r iaith mewn ardaloedd llai Cymraeg, a bod angen technegau gwahanol ar gyfer y ddau beth. • Trafodwyd bod angen targedau fesul ardal, targedau interim a chydlynu gyda'r Strategaeth hybu. • Dylai'r targedau gynnwys amcanion economaidd hefyd. • Cytunwyd bod angen talu sylw i ganrannau yn ogystal â niferoedd. • Cytunwyd bod modd nodi yr hyn y gall y Cyngor ei wneud ond hefyd nodi ein bod angen cefnogaeth y llywodraeth o safbwynt yr adran gynllunio, addysg ayyb. • Trafodwyd yr angen i gynnig ffordd ymlaen ynglŷn a delio gyda datblygiadau tai sy'n gallu cael effaith niweidiol ar y Gymraeg. Edrych ar y mathau o dai sy'n cael eu adeiladu a'r effaith mae'n cael ar yr iaith. Datblygiadau tai newydd ag ysgolion newydd yn rai Cymraeg. • Angen ennill calonnau y Di-Gymraeg. Angen ymgyrchoedd marchnata. Sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn y gweithle. Angen addysgu/rhoi gwybodaeth i bobl am yr iaith a'i etifeddiaeth. • Angen gwneud y Gymraeg yn fwy poblogaidd. Cyfryngau, gemau cyfrifiadurol, diwylliant poblogaidd. Angen arddangos y manteision personol o'r Gymraeg. • Soniwyd bod angen adnoddau. • Marchnata i gwmnïoedd sy'n gweithio dros Brydain. Angen mynnu darpariaeth Gymraeg ar gyfer Cymru. Mae angen strategaeth ar gyfer hyn. • Marchnata gwerth dysgu'r iaith a bod yn ddwyieithog. Yr iaith yn drysor fel pob iaith. • Gwaelodlin o safbwynt data. • Angen creu'r galw am addysg Gymraeg yn lle ymateb i'r galw. 	
<p>6.</p>	<p>Unrhyw fater arall</p>	

7.	Dyddiad y Cyfarfod nesaf Gyda'r Gweinidog Alun Davies AC, ar y 31fed o Hydref, ac yna 15.12.2016, am 14:00	
-----------	--	--